



SGANIWCH FI

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori

Cynnig i greu Uned Cyfeirio Disgyblion

Canolfan i Ddysgwyr Agored i Niwed, Pontllan-fraith

20 Hydref 2021 – 1 Rhagfyr 2021



Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig yn

<https://www.caerffili.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>

Gellir hefyd gofyn am y wybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, yn ogystal ag ar ffurf copi caled.

Cysylltwch â ni ar 01443 864817 i drefnu hyn.



Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif
21st Century Schools and Colleges



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TABL CYNNWYS

Rhagarweiniad

- Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?
- Beth yw'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif?
- Beth rydym yn cynnig ei wneud?

[Tudalen 3](#)
[Tudalen 3](#)
[Tudalen 4](#)

Y Broses Ymgynghori

- Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?
- Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?
- Safbwyntiau plant am y cynnig

[Tudalen 5](#)
[Tudalen 6](#)
[Tudalen 7](#)

Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?

- Gwybodaeth Gefndir
- Cynllunio Lleoedd Ysgol
- Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau'r ysgol
- Prif Gynllun Enghreifftiol

[Tudalen 7](#)
[Tudalen 8](#)
[Tudalen 9](#)
[Tudalen 11](#)

Sut y bydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?

- Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a'r Galw a Ragamcenir
- Trefniadau'r Dalgylch
- Effaith ar ysgolionn eraill
- Amharu ar ddisgyblion
- Darpariaeth Uwchradd

[Tudalen 11](#)
[Tudalen 12](#)
[Tudalen 13](#)
[Tudalen 13](#)
[Tudalen 13](#)

Beth fydd effaith y cynnig?

- Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg
- Trefniadau Llywodraethu a Chategoreiddio'r Ysgol
- Materion yn ymwneud â'r Staff
- Materion Ariannol
- Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg
- Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr
- Cydraddoldebau
- Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Effaith ar y Gymuned a Budd i'r Gymuned

[Tudalen 13](#)
[Tudalen 14](#)
[Tudalen 14](#)
[Tudalen 15](#)
[Tudalen 15](#)
[Tudalen 15](#)
[Tudalen 16](#)
[Tudalen 17](#)
[Tudalen 18](#)

Beth yw manteision y cynnig?

- Manteision, Anfanteision, Risgiau
- Fframwaith Opsiynau
- Opsiwn a Ffeirir ac Opsiynau sydd wedi cael eu Diystyru

[Tudalen 19](#)
[Tudalen 21](#)
[Tudalen 26](#)

Y Camau Nesaf

- Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol
- Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau
- Dweud eich dweud

[Tudalen 26](#)
[Tudalen 27](#)
[Tudalen 27](#)

Gwybodaeth Ategol

- Cwestiynau Cyffredin

[Tudalen 28](#)



RHAGARWEINIAD

Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dechrau ar daith gyffrous, ond heriol, i gyflwyno gwelliannau a newidiadau.

Mae angen i Ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da ac yn addas i ddarparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio, trwsio, adnewyddu, ehangu neu ailadeiladu ysgolion yn rhannol i gyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer dulliau addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn y lleoliad cywir ar hyn o bryd ac mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn cynnig adeiladu ysgolion newydd neu newid ysgolion sydd eisoes yn bodoli.

Rydym yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella safonau'r amgylchedd dysgu i greu ysgolion yr 21ain ganrif a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili.

Mae'r llyfryn hwn yn berthnasol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerffili a gall fod o ddiddordeb penodol i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n mynychu, neu sy'n debygol o fynychu uned cyfeirio disgyblion. Mae'n nodi'r newidiadau rydym yn eu hawgrymu a'r rhesymeg sy'n gysylltiedig â'r math hwn o gyfleuster addysgol sy'n hygyrch i bob disgybl a gaiff ei atgyfeirio at y rhaglen Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS).

Mae'r broses ymgynghori yn cynnig cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i ystyried pan fydd y Cabinet yn penderfynu sut i weithredu.


Beth yw'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif?

Mae'r rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol, bwysig yn yr hirdymor. Caiff ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Cafodd rhan gyntaf y rhaglen (Band A) ei chynnal o 2014 i fis Mawrth 2019.

Mae Caerffili wedi cael llawer o fudd o fuddsoddiadau yn sgil rhaglen gychwynol "Band A" Ysgolion yr 21ain Ganrif, gyda tua £56.5 miliwn o fuddsoddiad at ddefnydd addysgol a chymunedol.

Cafodd cyllid Band A yng Nghaerffili ei ddefnyddio ar gyfer y canlynol:

	Enw'r Prosiect	Buddsoddiad Band A
	✓ Ysgol Uwchradd Islwyn	£22.6m
	✓ Ysgol Gymraeg Cwm Rhymni, Campws y Gwyndy	£19.2m
	✓ Ysgol Idris Davies 3-18	£8m
	✓ Estyniad i Ysgol Trecelyn	£2.6m
Delwedd o Ysgol Uwchradd Islwyn	✓ Gwelliannau i Ysgol Gyfun y Coed-duon	£2m

	✓ Cae 3G Ysgol Gyfun y Coed-duon	£865k
	✓ Gwelliannau i Ysgol Cae'r Drindod	£1.3m
	✓	

Erys trawsnewid addysg yn un o ganlyniadau hanfodol ein buddsoddiad ym Mand B y Rhaglen. Dechreuodd ail ran y cyllid hwn (Band B) ym mis Ebrill 2019, ac roedd y meysydd o flaenoriaeth yn cynnwys:

- Lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael
- Sicrhau bod gennym ysgolion o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir
- Cynnig digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol

Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Raglen Amlinellol Strategol a chafodd gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru mewn egwyddor ar gyfer buddsoddiad a nodwyd o £78 miliwn, yn amodol ar gymeradwyaeth ac ymgynghoriad unigol ar y prosiect. Mae'r rhaglen yn nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer rhaglen Band B yng nghyd-destun blaenoriaethau a nodau llesiant y Cyngor.

Gwnaethom nodi bod angen buddsoddi mewn gwella adeiladau ein hysgolion, ateb y galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, lleihau nifer y lleoedd gwag a datblygu cyfleusterau a rennir ac sydd wedi'u cyd-leoli. Ein dyhead yw darparu seilwaith addysgol effeithlon ac effeithiol a fydd yn ateb y galw presennol am leoedd, a'r galw yn y dyfodol, ac i'r holl gyfleusterau y buddsoddir ynddynt fod yn ymrwymedig i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith a'r adnoddau, gan sicrhau bod asedau ar gael i'r gymuned eu defnyddio.

Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:

- **Creu Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 ar hen safle Ysgol Gyfun Pontllan-fraith (NP12 2DA). Disgwylir y caiff y prosiect ei gwblhau ym mis Medi 2023.**
- Bydd y ganolfan ragoriaeth arfaethedig yn cefnogi dysgwyr agored i niwed o bob rhan o Gaerffili, yng Nghyfnod Allweddol 3/4, a bydd yn rhan ganolog o Strategaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) y Cyngor a [model prif ganolfan a lloerennau Cwmpawd](#)
- Bydd lle i rhwng 80 a 120 o ddisgyblion yn y cyfleuster newydd a bydd yn cynnig cyfleoedd dysgu o safon, darpariaeth chwaraeon dan do ac yn yr awyr agored yn ogystal â mynediad at gymorth o'r radd flaenaf, a bydd modd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol



Y BROSES YMGYNGHORI

Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?

Drwy fodel [TîmCaerffili - Yn Well gyda'n Gilydd](#), mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i'r cymunedau yn ein bwrdeistref sirol. Wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen defnyddio gweithgareddau ymgysylltu effeithiol sy'n rhan ganolog o'n proses benderfynu - [Darllenwch fwy am ein dull o Ymgynghori ac Ymgysylltu yma](#)

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod yn gosod gofynion y mae'n rhaid i gyrff perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol, weithredu yn unol â nhw wrth gyflwyno cynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir yn Adran 98 o Ddeddf 2013. Hynny yw, ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir.

Yn wahanol i gynigion Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif eraill yr ymgwymerwyd â nhw hyd yn hyn, nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn gymwys i unedau cyfeirio disgyblion ac felly nid yw'r broses ymgynghori a ragnodir gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn gymwys yn yr achos hwn.

Fodd bynnag, at ddibenion datblygu'r cynnig hwn ac i sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn modd agored, tryloyw a chytbwys, cynhelir proses ymgynghori a fydd yn adlewyrchu egwyddorion Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025 y Cyngor. Gan ddefnyddio'r dull "Sbectwm Ymgysylltu", defnyddir lefel ymgysylltu briodol i hysbysu rhanddeiliaid ac ymgynghori â nhw, gan adlewyrchu'r prosesau cyfatebol a amlinellir yn Adran 3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn unig.

Byddwn felly yn hysbysu'r canlynol o'n cynigion mewn llythyr neu dros e-bost:

Tabl 1: Rhestr o Ymgynghoreion

Disgyblion/Cynghorau Disgyblion *	Gweinidogion Cymru
Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr holl ddisgyblion*	Pob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol*
Pennaeth, Staff a Chyrff Llywodraethu*	Aelodau lleol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Cyfagos	Cynghorau Cymuned a Thref lleol
Cymdeithasau Staff Addysgu a Staff Cymorth	Estyn
Y Rhwydwaith Rhieni	Y Fforwm Addysg Gymraeg
Cyfarwyddwyr / Byrddau Addysg Esgobaethol	Consortium De Ddwyrain Cymru (EAS)

Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru	Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA)
Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	Mudiad Meithrin, Menter Iaith a darparwyr meithrin gwirfoddol

**ysgolion y bydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, neu y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, yn unig*

Noder:

- Caiff yr holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad ymgysylltu â'r gymuned.
- Ni chaiff unrhyw ymatebion negyddol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cyfrif fel gwrthwynebiadau ac nid oes angen cyflwyno Hysbysiad Statudol fel rhan o'r broses hon, ond cânt eu cofnodi fel sylwadau anffafriol.
- Caiff yr Adroddiad ymgysylltu â'r gymuned ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer adolygiad cychwynol a chymeradwyaeth, a'r Cabinet fydd yn gyfrifol am y gymeradwyaeth derfynol i barhau i'r cam cais cynllunio ac achos busnes llawn.
- Bydd aelodau'r Cabinet yn cael copïau o'r holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn eu fformat gwreiddiol fel rhan o'r broses benderfynu.

Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Mae'n hollbwysig cynllunio a datblygu cynigion effeithiol ar gyfer trefnu ysgolion er mwyn cyflawni nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid addysg yng Nghymru a darparu deilliannau addysgol gwell, gydag ymrwymiad i wella effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldebau ymhlith ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Wrth ymgymryd â phroses ymgynghori mewn perthynas â chynnig ar gyfer ysgol, bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn modd agored, tryloyw a chytbwys.

Fel rhan o'r cynnig hwn, mae'r dogfennau canlynol wedi'u creu:

- Dogfen Ymgynghori yn nodi'r cynnig (y ddogfen hon)
- Crynodeb o Hawliau Plant a Phobl Ifanc
- Aseiad Effaith Integredig

Darperir gwybodaeth ar wefan y Cyngor a chaiff yr holl ddogfennaeth ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

Ceir rhagor o fanylion mewn perthynas â'r prosesau a'r amserlenni yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yn adran **'Y Camau Nesaf'**.

Bydd Adran Gwasanaethau Eiddo yr Awdurdod yn ymgymryd â Phroses Cais Cynllunio ar wahân yn amodol ar wneud y penderfyniad terfynol a chymeradwyaeth y Cabinet i barhau gyda'r cynnig hwn. Ceir manylion yr holl geisiadau ar wefan y Cyngor pan fydd y broses yn fyw.

Safbwyntiau plant am y cynnig

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod rhoi llais i bobl ifanc yn golygu eu cynnwys fel cyfranogwyr yn y broses o ddatblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiadau addysgol ac fel myfyrwyr a bod angen iddynt fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso.

Mae gan bobl ifanc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt a dylid sicrhau bod pwys priodol yn cael ei roi ar eu barn yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai pobl ifanc wella'r broses o wneud penderfyniadau yn ogystal â rhannu safbwyntiau a chymryd rhan fel dinasyddion a hwyluswyr newid.

Mae hyn hefyd yn amlwg yn adroddiad Estyn 'Cyfranogiad disgyblion: canllaw arferion gorau', sy'n dangos sut y gellir cyflawni buddiannau i ddisgyblion a helpu ysgolion i wella drwy alluogi pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses.

Bydd Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghaerffili yn sicrhau y caiff trefniadau addas eu gwneud i ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys yn y broses, yn ogystal ag ar ôl i'r gwaith ddod i ben, wrth gyflwyno unrhyw gynnydd. Caiff fersiwn o'r Ddogfen Ymgynghori sy'n addas i blant ei chynhyrchu a chaiff unrhyw adborth a geir drwy'r broses neu drwy weithgareddau ymgysylltu eraill â phlant agored i niwed sydd eisoes yn defnyddio darpariaeth EOTAS ei gynnwys yn y ddogfennaeth a anfonir ymlaen i'r Cabinet i'w hystyried unwaith i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Rydym eisoes wedi ymgynghori rhywfaint â dysgwyr agored i niwed wrth ddatblygu syniadau ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae'r negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r broses hon yn cynnwys y canlynol:

- ❖ Nododd 96% o ddisgyblion fod y math hwn o ddarpariaeth yn eu galluogi i wneud cynnydd
- ❖ Nododd 88% o ddisgyblion y bydd Uned Cyfeirio Disgyblion newydd yn rhoi'r amrywiaeth gywir o brofiadau dysgu iddynt er mwyn datblygu sgiliau angenrheidiol a dysgu
- ❖ Mae 66% o'r disgyblion yn teimlo nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i wneud ymarfer corff ar hyn o bryd. Caiff cyfleusterau chwaraeon eu datblygu fel rhan o'r cynnig hwn.

Bydd y cynnig hwn yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, a'r hyn a fydd yn gweithio orau iddo. Yn hyn o beth, mae ymateb i lais y disgybl yn hollbwysig. Bydd llais y disgybl yn rhan allweddol o'r broses ddylunio ac felly bydd yn ddylanwadol iawn o ran datblygu cwricwlwm arloesol a chreadigol sy'n rhoi llwybrau diogel, priodol, cydlynol ac uchelgeisiol i bob dysgwr. Bydd y dyluniadau terfynol yn ystyried ardaloedd cynllun agored, ardaloedd dysgu unigol/tawel a mannau arloesol i ddysgu a chwarae. Cydnabyddir hefyd y syniad o ddarparu mannau hyblyg er mwyn rhoi strategaethau addysg Llywodraeth Cymru ar waith, gan gynnwys diwygio'r cwricwlwm.

PAM EIN BOD YN CYNNIG Y NEWIDIADAU HYN?

Gwybodaeth Gefndir

Gall adeiladau newydd chwarae rhan allweddol fel lleoedd i ysbrydoli ac addysgu ein plant, ond hefyd fel amgylcheddau dysgu bywiog a dynamig i alluogi disgyblion o bob oedran i ddysgu a thyfu, ac at ddefnydd teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ein nod yw sicrhau mynediad cyfartal

drwy hyrwyddo a chefnogi'r broses o ddatblygu addysg gynhwysol ac ymrwymo i ddarparu addysg a gwasanaethau o'r radd flaenaf gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu addysg o ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc, sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion gan ddatblygu eu potensial, ehangu eu gorwelion, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chyfrannu at adfywiad economaidd yr ardal. Er bod cynnydd wedi'i gyflawni, mae gwaith ar ôl i'w wneud i wella canlyniadau a llesiant plant a phobl ifanc.

Mae cyswllt uniongyrchol rhwng statws economaidd-gymdeithasol, tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Mae hwn yn fater cenedlaethol ac yn un sydd wrth wraidd cynlluniau gwella yng Nghaerffili. Fodd bynnag, er mwyn gallu cynnal cymariaethau perthnasol rhwng awdurdodau, mae'n rhaid ystyried hyn. Mae tua hanner yr holl ddisgyblion EOTAS yn dod o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) mwy difreintiedig ledled Caerffili; mae 12.7% o ACEHlau Caerffili ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae 28.2% ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn seiliedig ar ddata 2019).

Gall awdurdodau lleol ddatblygu eu cynnig eu hun o ran darpariaeth EOTAS. O ganlyniad uniongyrchol i ymrwymiad y Cyngor i gynhwysiant, mae swyddogion yn y fwrdeistref wedi datblygu cynnig helaeth sy'n ystyried capasiti yn ogystal â'r amrywiaeth o anghenion a dangosir gan rai o'r myfyrwyr mwyaf agored i niwed ar draws y fwrdeistref.

Mae gan y Cyngor brosesau sefydledig trwyadl a chadarn ar gyfer nodi'r unigolion hynny y mae angen EOTAS arnynt a darparu ar eu cyfer. Yn genedlaethol ac yn lleol, mae nifer y disgyblion y mae angen y ddarpariaeth hon arnynt wedi cynyddu. Ar hyn o bryd, mae lle i 140 o fyfyrwyr mewn cyfleusterau EOTAS ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gan fod angen y ddarpariaeth ar oddeutu 260 o fyfyrwyr ar hyn o bryd, rydym yn trefnu darpariaeth drwy contract allanol ar gyfer myfyrwyr dethol. Drwy hunanwerthuso, rydym wedi dod i'r casgliad y gellid datblygu'r ddarpariaeth gyfredol ymhellach a'i gwella er mwyn gwella deilliannau'r disgyblion a gwerth am arian.

Bydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion arfaethedig ym Mhontllan-fraith yn ychwanegu at y portffolio presennol, gan sicrhau bod digon o gapasiti ac adnoddau i gefnogi disgyblion drwy'r llwybrau a'r ymyriadau mwyaf priodol, yn ôl yr angen.


Cynllunio lleoedd ysgol

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru sicrhau ei fod yn darparu digon o leoedd mewn ysgolion i ddisgyblion o bob oedran er mwyn darparu addysg o'r radd flaenaf iddynt a sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru hefyd ddarparu lleoedd sy'n diwallu anghenion disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a ffydd yn ogystal â bod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Mae oddeutu 27,000 o blant oed ysgol yng Nghaerffili. Darperir addysg drwy 73 o ysgolion cynradd, 1 ysgol wirfoddol a gynorthwyir, 1 ysgol arbennig, 1 ysgol 3-18 oed ac 11 ysgol uwchradd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cydnabod bod plant a phobl ifanc y gall fod angen darpariaeth y tu allan i'r ysgol arnynt ar adeg benodol drwy'r ddarpariaeth EOTAS ymhlith dysgwyr mwyaf agored i niwed y fwrdeistref.

Mae nifer y myfyrwyr EOTAS ledled Cymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Yn y cyfrifiad diweddaraf (18/19), maent yn cynrychioli 3.8 fesul 1000 o fyfyrwyr.

Ar hyn o bryd, mae darpariaeth yng Nghaerffili yn ogystal â mynediad at ddarparwyr allanol a gaiff eu caffael. Gall cost ac ansawdd y ddarpariaeth hon amrywio'n helaeth.



Cyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgol

Blaenoriaeth y Cyngor yw darparu'r addysg orau bosibl i bob disgybl, yn enwedig y rhai sydd fwyaf tebygol o dangyflawni. Mae ymrwymiad a phenderfyniad i ddibynnu llai ar ddarpariaeth allanol a chyflawni prosesau yn fewnol drwy ddatblygu canolfan ragoriaeth drwy ddull portffolio Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn sicrhau cynnig gwell a fydd yn diwallu anghenion pob disgybl ac yn darparu llwybr penodol sy'n briodol i'w hanghenion. Mae'r egwyddorion yma yn gyson â dull Llywodraeth Cymru o ail-lunio'r agenda Anghenion Dysgu Ychwanegol o ran ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person.

Yng Nghaerffili, rydym wedi datblygu Uned Cyfeirio Disgyblion yn y Ganolfan Ddysgu, Glanynant sy'n darparu ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2-4 ar hyn o bryd. Nod y ganolfan hon yw cefnogi myfyrwyr sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Fodd bynnag, ar y cyd â'r ddarpariaeth yng Nglanynant, mae'r Cyngor wedi datblygu:

- Prosiect 'Innovate' – prosiect a gaiff ei redeg gan Wasanaeth Ieuentid yr Awdurdod Lleol lle caiff pobl ifanc eu hannog i fagu hyder, hunan-barch ac annibyniaeth. Mae'r prosiect hwn yn darparu ar gyfer myfyrwyr sydd ar gam pellach yn eu taith addysgol, er nad yw'n gyfyngedig i hynny, ac mae'n anelu at sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i addysg ôl-16.
- Tiwtora yn y Gymuned yn yr HIVE – lleoliad ar gyfer grwpiau bach sydd â chymhareb uchel o gymorth gan oedolion i fyfyrwyr sydd â lefelau uchel o orbryder a all fod yn cael cymorth drwy Fy Nhîm Cefnogi Caerffili (CMyST), Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) neu sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Tiwtora Gartref – tîm o diwtoriaid sy'n darparu addysg i fyfyrwyr na allant fynychu eu hysgol brif ffrwd ar hyn o bryd am amrywiaeth o resymau. Gall hyn ddigwydd yn y cartref neu mewn rhai lleoliadau cymunedol hefyd.

Yn unol â'r uchod, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnydd mewn niferoedd a welwyd o fis Medi 2018 a datblygiad mewn darpariaeth dan arweiniad ysgolion drwy ddatblygu'r Canolfannau Cynnydd Dysgu sy'n arwain y sector.

- Mae tair o'r canolfannau hyn yn yr awdurdod ar hyn o bryd. Fe'u dyluniwyd yn ofalus a'u lleoli ar safleoedd ysgolion prif ffrwd ac maent yn canolbwyntio ar wneud gwaith ymyrryd byrdymor gyda myfyrwyr sydd ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Darperir addysg drwy sesiynau tiwtora mewn grwpiau bach, gyda'r nod cyffredinol o ailintegreiddio myfyrwyr yn ôl i addysg brif ffrwd.

Bydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion arfaethedig ym Mhontllan-fraith yn rhan ganolog o'n darpariaeth ac yn dod yn ganolfan ragoriaeth i ni. Bydd y ddwy Uned Cyfeirio Disgyblion yn gweithredu o dan yr un ambarél. Caiff yr Uned yng Nglanynant ei had-drefnu i gynnig darpariaeth ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a bydd yr Uned ym Mhontllan-fraith yn darparu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4, gan felly sicrhau bod digon o gapasiti ac adnoddau i gefnogi disgyblion drwy'r llwybrau a'r ymyriadau mwyaf priodol, yn ôl yr angen.

Mae lleoliad arfaethedig y cyfleuster newydd ar ran o hen safle Ysgol Gyfun Pontllan-fraith (wedi'i amlinellu mewn coch). Mae'r cynnig yn bwriadu ailfodelu adeilad yr hen ysgol ramadeg (mewn porffor) ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion a darparu cyfleusterau ychwanegol yn yr awyr agored, gan gynnwys neuadd chwaraeon ac ardal chwarae amldeffnydd gyda charped 3G ar y lefel is.

Y Safle Presennol



Cynllun o'r Safle Arfaethedig



Mae ymchwiliad safle ac arolwg topograffig wedi cael eu cynnal ar y safle ac nid oes unrhyw faterion wedi'u nodi. Mae adeilad yr ysgol ramadeg wedi bod yn wag ers sawl blwyddyn a chydabyddir bod yr Arolwg Cyflwr cyfredol bellach yn 2-3 oed ac y bydd angen ei ddiweddarau er mwyn nodi unrhyw faterion pellach o ran adeiladwaith neu strwythur yr adeilad presennol.

Mae llwybr mynediad dynodedig ar gyfer cerbydau a cherddwyr ar y safle a bydd yn addas ar gyfer cerbydau cludo arbenigol yn ôl yr angen. Mae cyfleusterau parcio ar y safle hefyd.

Mae'r awdurdod eisoes yn berchen ar y tir a byddai'r cynnig i addasu'r safle hwn at ddiben gwahanol yn arwain at leoedd EOTAS ychwanegol, gan gynnig cymorth parhaus ar ffurf ymyriadau a chreu darpariaeth Canolfan Ragoriaeth mewn un lleoliad.

Prif Gynllun Enghreifftiol

Mae'r 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiant' yn darparu fframwaith ar gyfer adfywio'r Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol hyd at 2023. Mae'r ddogfen yn nodi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer yr adfywiad mewn pedair thema allweddol:

- Helpu Pobl (lleihau anghydraddoldeb, meithrin gallu a gwydnwch i greu cymunedau iachach, ffyniannus, cydlynol);
- Helpu Busnes (creu cyfleoedd cyflogaeth, cynyddu gweithgareddau entrepreneuriaidd, annog arloesi a gwella mynediad at gyflogaeth);
- Helpu Ansawdd Bywyd (darparu'r amgylchedd ffisegol cywir ar gyfer ein cymunedau a fydd yn eu hannog i ffynnu);
- Cysylltu Pobl a Lleoedd (gwella cysylltedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn fyd-eang).

Mae cyfres o gynlluniau gweithredu a strategaethau wedi'u targedu yn ategu'r Strategaeth Adfywio sydd wedi'u hanelu at achub ar gyfleoedd adfywio a datblygu safleoedd allweddol ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Prif Gynllun yn nodi sawl prosiect yn yr ardal a allai arwain at fudd economaidd a chymunedol sylweddol, a bydd yn darparu fframwaith ar gyfer rhedeg y prosiectau hynny.

Yn ogystal, disgwylir y bydd nifer y plant oed ysgol yn cynyddu o fewn Ardal yr Uwchgynllun o ganlyniad i ddatblygiadau newydd ac mae'n bwysig bod cyfleoedd i ysgolion ehangu er mwyn darparu ar gyfer disgyblion ychwanegol. Cytunodd y Cyngor mewn egwyddor yn ddiweddar i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol yn yr ardal ehangach yn amodol ar gadarnhau cyllid ar gyfer prosiectau unigol a chael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer achosion busnes, a chaiff canlyniad ymgynghoriadau unigol ei ystyried fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r cynnig hwn yn rhan o'r Strategaeth honno wrth symud ymlaen.

SUT Y BYDD HYN YN EFFEITHIO AR YSGOLION ERAILL?

Caiff newidiadau mewn un rhan o'r sector Addysg yn y Sir effaith ehangach ar ysgolion eraill a'u disgyblion. Wrth ystyried pob cynnig, caiff y dull o sicrhau bod y rhwydwaith addysg yn gynaliadwy ac yn cael ei gwella yn ogystal â'r ardal ehangach eu hystyried. Rhoddir ystyriaeth briodol i effaith y cynnig hwn a chaiff ymgynghoriad ei gynnal â phob ysgol y mae'n effeithio arni.

Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a'r Galw a Ragamcenir

Yn genedlaethol ac yn lleol, mae nifer y disgyblion hynny y mae angen y ddarpariaeth hon arnynt wedi cynyddu, fel y gwelir yn swm y ddarpariaeth sydd ei hangen i ateb y galw a'r tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn.

- Mae nifer y myfyrwyr EOTAS ledled Cymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Yn y cyfrifiad diweddaraf (18/19), maent yn cynrychioli 3.8 fesul 1000 o fyfyrwyr.
- Mae tuedd debyg i'w gweld o edrych ar ffigurau EOTAS yng Nghaerffili.

- Ar hyn o bryd, mae lle i oddeutu 140 o fyfyrwr mewn cyfleusterau EOTAS ar draws bwrdeistref Caerffili.

Mae'r garfan bresennol o fyfyrwr wedi'i gwasgaru ar draws y mathau amrywiol o ddarpariaeth.

Tabl 2: Niferoedd Gwirioneddol ac Amcanestynedig sy'n Mynychu

	Y Ganolfan Ddysgu	Innovate	HIVE	Uned Cyfeirio Disgyblion	Canolfannau Cynnydd Dysgu	Tiwтора Gartref	Asiantaethau Allanol	Cyfanswm
Cyfredol	28	32	30	0	60	80	50	280
2023	28	32	40	40	60	60	40	300
2024	28	32	50	60	60	40	30	300
2025	28	32	50	80	60	20	20	290

Mae rhywfaint o frasmcanu yn y ffigurau uchod gan eu bod yn dibynnu ar anghenion pobl ifanc sy'n dod i'r amlwg. Mae'n anodd rhagfynegi'r niferoedd yn gywir a bydd y dasg hon nawr yn wynebu'r newidyn anhysbys o ran sut y bydd myfyrwr yn addasu wrth ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth pan ddaw'r cyfyngiadau yn sgil COVID-19 i ben. Mae'n rhaid i'r buddsoddiad hefyd ystyried y twf cyffredinol yn nifer y myfyrwr ym mhob ysgol yn yr awdurdod. Ar hyn o bryd, mae dysgwyr EOTAS yn cynrychioli ychydig dros 1% o blant oed ysgol ond, wrth i'r ffigurau amcanestynedig gynyddu yng Nghaerffili, bydd yr 1% o ddysgwyr EOTAS yn cynrychioli mwy o fyfyrwr.

Fodd bynnag, mae'r ffigurau yn gynrychioliad realistig o strategaeth EOTAS y Cyngor.

Ymhlith llawer o fanteision eraill a restrir yn y ddogfen hon, bydd datblygu Uned Cyfeirio Disgyblion newydd ym Mhontllan-fraith yn:

- Lleihau'r angen i ddefnyddio asiantaethau allanol
- Galluogi mwy o ddisgyblion i drosglwyddo o Diwtora Gartref i Diwtora yn y Gymuned

Trefniadau'r Dalgylch

Mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r cyfle gorau i ddiogelu a chynnal safonau addysgol ar gyfer y dyfodol ac mae'n ffordd o wella'r ddarpariaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion drwy fuddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau parhaol. Bydd hyn yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21^{ain} Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, ardal chwarae yn yr awyr agored, cae chwaraeon a mynediad estynedig i'r gymuned sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pawb.

O ganlyniad i natur darpariaeth EOTAS, bydd disgyblion o bob rhan o'r fwrdeistref yn gallu manteisio ar y gwasanaeth. Mae'n aml yn anodd rhagfynegi'r galw ar y gwasanaeth o ddydd i ddydd o ganlyniad i ofynion ymyrryd penodol disgyblion unigol oherwydd gall fod angen cymorth hirdymor neu fyrdymor arnynt. Fodd bynnag, er bod y sefyllfa fel 'drws troi' i raddau, cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau y darperir datrysiad digonol a fydd yn ateb y galw ar bob adeg. Bydd y cynnig hwn yn helpu i gefnogi'r ethos hwn ac yn golygu na fydd angen dibynnu cymaint ar ddarparwr allanol.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn mynd i gostau er mwyn talu am wasanaethau a gaiff eu caffael ac asiantaethau allanol i ateb y galw ychwanegol am leoedd. Yn ariannol, cost flynyddol caffael

gwasanaethau allanol i gefnogi myfyrwyr EOTAS yn 19/20 oedd £1,128,754. Yn ogystal â hyn, gwariwyd £1,838,543 ar staff asiantaeth yn ystod yr un cyfnod. Er y cydnabyddir y bydd angen cyllideb gymharol debyg i ddatblygu darpariaeth fewnol a thîm dynodedig o staff, bydd y Cyngor yn gallu darparu llawer mwy o leoedd sy'n golygu gwerth am arian yn hytrach nag arbedion yn yr achos hwn.

Effaith ar ysgolion eraill

O ran cyfleusterau Unedau Cyfeirio Disgyblion penodol, dim ond un cyfleuster arall o'r fath sydd yn y fwrdeistref ac mae hwnnw'n llawn; mae'n cefnogi hyd at 24 o ddisgyblion o Gyfnod Allweddol 2 i 4 ar unrhyw un adeg ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, bu'n rhaid i ni gynyddu'r capasiti hwn i 28 er mwyn ymdopi â'r galw. Mae'r Cyngor yn buddsoddi yn ei gyfleuster yng Nglanynant drwy ei Raglen Gyfalaf er mwyn darparu ar gyfer 16 o fyfyrwyr ychwanegol (dwy ystafell ddosbarth). Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar y safle sy'n atal unrhyw ehangu pellach ac o ganlyniad i'r angen a ragwelir yn y dyfodol, cyflwynwyd y cynnig hwn. Rhagwelir y bydd y ddau safle yn cydweithio, o dan yr un ambarél, gyda'r Caiff yr Uned yng Nglanynant un ad-drefnu i gynnig darpariaeth ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a bydd yr Uned ym Mhontllan-fraith yn darparu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4, er mwyn darparu digon o gapasiti a chymorth i'r disgyblion hyn sy'n agored i niwed.

Amharu ar ddisgyblion

Mae'r cynnig yn bwriadu creu Uned Cyfeirio Disgyblion newydd. Y Cyngor sy'n berchen ar y safle ac mae eisoes wedi'i ddynodi at ddefnydd Addysgol fel rhan o'r pecyn gweithredoedd ac o fewn y dynodiad at ddibenion y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.

Drwy ddefnyddio safle sydd eisoes yn bodoli, yn ystod y cam adeiladu ni fyddai'r datblygiad yn cael unrhyw effaith ar unrhyw leoliad presennol sydd â disgyblion nes bod y safle yn barod. Ar yr adeg honno, byddai'r dysgwyr yn cael eu cefnogi drwy unrhyw broses symud lle y bo'n berthnasol.

Darpariaeth Uwchradd

Bydd y cynnig yn cefnogi'r gwaith o ddarparu addysg yn effeithiol ym mhob ysgol uwchradd drwy sicrhau bod anghenion disgyblion sydd wedi dadrithio yn cael eu diwallu.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu i bobl ifanc agored i niwed ni waeth beth fo'u hil, eu rhywedd, eu rhywioldeb, eu hiaith neu eu cred grefyddol ac, yn ogystal, bydd y canlyniadau cadarnhaol i'r bobl ifanc yn cynnwys mwy o gymorth i aros mewn addysg a hyfforddiant.



BETH FYDD EFFAITH Y CYNNIG?

Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg

Estyn a'r Awdurdod Lleol sy'n monitro ansawdd a safonau ysgolion yng Nghaerffili. Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrrff y Goron a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Yn hanesyddol, mae Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi adolygu arferion mewn perthynas â lleoli disgyblion ac EOTAS hefyd. Mae'r dogfennau a amlinellir isod er gwybodaeth hefyd wedi cael eu defnyddio fel y cyd-destun ar gyfer datblygu strategaeth yr Awdurdod Lleol o ran ymarfer effeithiol a deddfwriaeth.

Estyn:

Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig (2018)
Iach a Hapus (2019)
Arferion cofrestru disgyblion (2019)
Addysg heblaw yn yr ysgol (2016)

Llywodraeth Cymru:

Fframwaith gweithredu (2017)
Datganiad ystadegol (EOTAS)

Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswydd ac yn gallu mynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad cylch gwaith Estyn ar EOTAS 2016, yr oedd Caerffili ymhlith yr awdurdodau a gyfrannodd ato, sy'n cynnwys:

- Mae Argymhelliad 8 o adroddiad Estyn yn nodi y dylid "*rhoi addysg addas i ddisgyblion o fewn 15 niwrnod o benderfynu y dylai disgybl gael addysg heblaw yn yr ysgol*".
- Mae Argymhelliad 9 o adroddiad Estyn yn nodi y dylid "*darparu cwricwlwm amser llawn i bob disgybl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol*".

Trefniadau Llywodraethu

Gan fod y cynnig yn bwriadu creu Uned Cyfeirio Disgyblion newydd, nid oes pwyllgor rheoli ar waith ar hyn o bryd a chaiff ei sefydlu wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Ystyrir defnyddio fframweithiau presennol sydd ar waith yn y ddarpariaeth EOTAS er mwyn manteisio i'r eithaf ar arbenigedd yn y maes hwn. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel bod trefniadau arwain a llywodraethu'r ysgol yn cefnogi deilliannau addysgol.

Materion yn ymwneud â'r Staff

Mae gan staff yr ysgol rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd dysgu diogel a chefnogol. Gallant feithrin cydberthnasau cadarnhaol, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda disgyblion ac yn gwella hinsawdd yr ysgol drwy annog rhieni a theuluoedd i fod yn rhan o addysg.

Drwy feithrin cydberthnasau cadarn, gall y staff ddylanwadu ar bron pob agwedd ar fywydau eu disgyblion, drwy addysgu gwersi bywyd pwysig iddynt a fydd yn eu galluogi i lwyddo y tu hwnt i addysg hefyd. Nid yw bob amser yn hawdd newid bywyd disgybl, a dyna pam mae angen athro rhagorol i wneud hynny.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen tîm o staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas ar y cyfleuster newydd hwn er mwyn cyflwyno cynnwys y cwricwlwm ynghyd â therapi / ymyriadau penodol i gefnogi llesiant yr holl bobl ifanc. Dilyni'r prosesau recriwtio'r Cyngor fel y bo'n briodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i'r egwyddorion sy'n sail i Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Mae'r holl staff yn ymrwymedig i dwf proffesiynol a bydd dewis helaeth ar gael i

ymrwymo i ymchwil sy'n seiliedig ar weithredu a cheisio bod yn athro gwell, gyda'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn sail i'r cyfan. Bydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn gweithredu fel canolfan ragoriaeth gan gefnogi datblygiad staff o fewn y fwrdeistref a'r tu hwnt.

Materion Ariannol

Mae cyllid eisoes wedi cael ei neilltuo ar gyfer cyfran y Cyngor o gostau cyfalaf y prosiect. Caiff y costau rheolaidd (refeniw) eu hystyried fel rhan o'r broses o gynllunio'r gyllideb wrth symud ymlaen. Ystyrir pob cost ychwanegol neu arbedion yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

Mae Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eisoes wedi cytuno i neilltuo cronfa wrth gefn fel y gall y Cyngor gyfrannu at y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â chynigion Band B yr 21^{ain} Ganrif yr Awdurdod. Gwerth y gronfa wrth gefn hon yw £6.975m ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod yr Awdurdod wedi cyfrannu £6.413 miliwn at Gam 1 o'r rhaglen. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyfraniad o £647k o gronfa wrth gefn Cyfalaf Gwasanaethau Cymdeithasol a glustnodir er mwyn cefnogi gwariant ychwanegol ar Brosiect Cae'r Drindod, yn amodol ar gymeradwyo'r cais cynllunio llawn. O ganlyniad, ar hyn o bryd, y balans sydd heb ei neilltuo o'r £6.975 miliwn yw £1.209 miliwn.

Amcangyfrifir bod yr Awdurdod wedi cyfrannu £5,952,000 at Gam 2 y rhaglen, fel y nodir uchod. Caiff y gost hon ei thalu o'r cyllid sy'n weddill, sef £1.209 miliwn, sydd eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, a ffigur o £4.716 miliwn o Gronfa Wrth Gefn Llundio Lleoedd yr Awdurdod.

Mae'r cynnig i greu Uned Cyfeirio Disgyblion ym Mhontllan-fraith yn un o dri phrosiect a nodwyd yng Ngham 2 o'r rhaglen. Ar hyn o bryd, datblygwyd amcangyfrifon cost yn seiliedig ar ddata cost cyhoeddedig ar gyfer gofynion hysbys y prosiect fel y'u diffinnir yn yr opsiwn ffordd ymlaen a ffeirir. Gwnaed asesiad rhesymol i bennu costau annormal tebygol mewn perthynas â'r safle. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd angen cyllideb o £5,500,000 ar gyfer y prosiect. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r gyllideb hon ar gyfer y prosiect ac mae cyfraniad ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef £1,375,000 (25%), wedi cael ei gynnwys yn rhaglen gyfalaf y Cyngor fel benthyca â chymorth.

Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg

Mae rhaglen y Prif Weinidog ar gyfer Llywodraeth 2016-2020, Symud Cymru Ymlaen, yn gweithio tuag at gael miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn darparu cyfres o safonau ac yn rhoi dyletswydd statudol ar y Cyngor i asesu'r galw am addysg cyfrwng Gymraeg yn yr ardal. Mae un o'r safonau allweddol yn cynnwys gofyniad i ddatblygu strategaeth Gymraeg bum mlynedd, gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Gymraeg a'n galluogi i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'i rwymedigaethau i gefnogi darpariaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg fel y nodir yn ei Gynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg, lle mae ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i hyrwyddo'r Gymraeg a darparu cyfleusterau addysgol deniadol o ansawdd yn amlwg.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatblygu cyfleoedd i ddarpariaeth gael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg lle y bo'n bosibl. Ar hyn o bryd, gallai un rhan o 12 o fyfyrwyr sy'n

defnyddio'r ddarpariaeth EOTAS ddod o ysgolion Cymraeg o bob rhan o'r sir a dylid nodi nad yw gwasanaethau a gaiff eu caffael yn allanol yn cynnig unrhyw ddarpariaeth Gymraeg. Byddai'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwnnw drwy ddychwelyd i ddarpariaeth fewnol ac felly byddai'n cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal, fel rhan o unrhyw broses recriwtio, byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr

Mae dyletswydd Statudol ar y Cyngor i ddarparu trafndiaeth am ddim i ddisgyblion i'w hysgol/darparwr addysg addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ddarpariaeth honno. Caiff pob disgybl ei asesu yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae gan y Cyngor bolisi Teithio gan Ddysgwyr ar hyn o bryd sy'n fwy hael na gofynion statudol y Mesur.

Mae'r tabl isod yn nodi'r ddarpariaeth EOTAS fewnol amgen agosaf sydd ar gael:

Tabl 3: Y ddarpariaeth EOTAS fewnol amgen agosaf:

Cyfleuster	Pellter / Teithio
Uned Cyfeirio Disgyblion Glanynant, Canolfan Ddysgu NP12 3XP	3 milltir
Lewis Pengam, Canolfan Cynnydd Dysgu CF81 8LJ	3 milltir
Heolddu, Canolfan Cynnydd Dysgu CF81 8XL	5.1 milltir
HIVE CF83 1FR	8.7 milltir

Nod y Cyngor yw darparu system drafnidiaeth a fydd yn ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg yn ddiogel ac yn gyfforddus. Hen safle ysgol yw'r lleoliad newydd arfaethedig ac felly mae nifer o lwybrau 'Teithio Diogel' eisoes wedi'u creu, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol. Mae'r rhain yn cynnwys manau bysiau/tacsis dynodedig, goleuadau a llwybrau cerdded dynodedig.

Er bod y goblygiadau cost parhaus wedi'u hystyried a bod arian wrth gefn wedi'i ystyried yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, ni ellir pennu'r union gost ar hyn o bryd gan mai anghenion disgyblion unigol fydd yn pennu'r dull o drafnidiaeth fydd ei angen.

Cydraddoldebau

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn gweithio yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a chyd-barch o fewn ein cymunedau a rhyngddynt.

Mae asesiadau o effaith yn ein helpu i ddangos sut y mae'r cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd i roi ystyriaeth i gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Maent yn ffordd

o sicrhau bod y polisïau, yr arferion, y prosiectau a'r gweithgareddau sy'n llywio ein gwaith yn rhoi mynediad cyfartal i bawb i'n holl wasanaethau.

Mae asesiadau o effaith yn canolbwyntio ar p'un a yw'r newidiadau i'r ffordd rydym yn gwneud pethau (megis arferion gwaith neu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau) yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu neu'r rheini sy'n darparu ein gwasanaethau. Maent yn ein helpu i gynllunio i leihau neu gael gwared ar effaith negyddol – er enghraifft drwy wneud newidiadau rhesymol i'r ffordd y mae grŵp penodol yn derbyn gwasanaeth (er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth mewn ffordd wahanol neu osod ramp mewn adeilad ac ati).

Daeth dyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd a nodir yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar 31 Mawrth 2021. Caiff templed Asesiad Effaith Integredig Cyngor Caerffili ei ddefnyddio i gynnal Asesiadau cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg a gaiff eu hadolygu ymhellach yng ngoleuni unrhyw elfennau ychwanegol y tynnir sylw atynt drwy'r prosesau ymgynghori statudol wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Bydd defnyddio cynllun newydd yr Asesiad Effaith Integredig yn llywio gwaith y Cyngor i sicrhau y ceir mynediad cyfartal i'r holl wasanaethau ac yn helpu i gefnogi'r Cyngor ymhellach i wneud penderfyniadau effeithiol ac ar sail gwybodaeth wrth sicrhau y cydymffurfir ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

Mae Asesiad Effaith Integredig llawn wedi'i gwblhau. Mae'r ddogfen hon ar gael fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y wefan.

Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol

Un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor yw sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion yn y lleoliadau mwyaf priodol a sicrhau ei fod yn ymwybodol o newidiadau demograffig (h.y. cynnydd a gostyngiadau ym mhoblogaeth disgyblion). Mae gofyn i'r Cyngor hefyd nodi strategaeth ym mhob rhan o'r awdurdod i greu darpariaeth gymunedol mewn ysgolion, yn ogystal â darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol neu anabledau.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod effaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r angen i sicrhau bod darpariaeth yn addas ar gyfer y dyfodol. Drwy raglen Band B, mae'r mathau, y swm a'r ansawdd cywir o ddarpariaeth wedi cael eu hystyried er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol.

Nod y cynnig hwn yw darparu model newydd o weithio o fewn y ddarpariaeth EOTAS, un sy'n gallu diwallu anghenion newidiol dysgwyr agored i niwed, drwy ddarparu cymorth ac amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Y dyhead yw sicrhau rhagoriaeth o ran llesiant disgyblion a gwella darpariaeth a deilliannau i grwpiau agored i niwed drwy drawsnewid yr amgylchedd dysgu er

budd pawb drwy greu'r Uned Cyfeirio Disgyblion ychwanegol hon yn y Sir, ar hen safle Ysgol Gyfun Pontllan-fraith.

Effaith ar y Gymuned a Budd i'r Gymuned

Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased. Ein dyhead ni, ac un o ragofynion y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, yw ymrwymo i sicrhau bod asedau ar gael i gefnogi angen addysgol a defnydd cymunedol, hyrwyddo cadernid cymunedol a chyfrannu at gyflawni sawl un o Strategaethau'r Awdurdod Lleol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r seilwaith a'r adnoddau newydd, fel rhan o'r cynnig, caiff hyblygrwydd ei sicrhau wrth adeiladu'r ysgol mewn ffordd a fydd yn ateb galw lleol.

Darpariaeth Gymunedol a Defnydd y Gymuned

Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased. I'r perwyl hwn, bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau er mwyn gallu defnyddio'r cyfleusterau mewnol ac allanol newydd, gan gynnwys darpariaeth chwaraeon unwaith y bydd anghenion cwricwlaidd y disgyblion wedi cael eu diwallu.

Y bwriad hefyd yw datblygu Caffi Cymunedol ar y safle lle y caiff aelodau o'r gymuned, ar adegau penodol yn ystod y dydd, eu gwahodd i ardal lletygarwch i fwynhau lluniaeth a gaiff ei ddylunio, ei ddatblygu, ei baratoi a'i weini gan y bobl ifanc sy'n mynychu'r Uned. Mae meysydd sgiliau a datblygiad cymdeithasol eraill a sut y gellid eu hymgorffori fel rhan o'r cynnig os caiff ei gymeradwyo hefyd yn cael eu hystyried.

Cynhwysiant Digidol

Mae gan Gyngor Caerffili ddyheadau clir i bob ysgol ddod yn ganolfan ddysgu gymunedol fel rhan o'i Raglen Hwb. Fel y cyfryw, mae defnydd cymunedol a'r seilwaith priodol sydd ei angen i gyflawni hyn bellach yn un o elfennau allweddol y prosiect a'r broses gynllunio wrth symud ymlaen a bydd cynrychiolwyr o adrannau Gwasanaethau Digidol ac Ymgynghoriaeth Adeiladu y Cyngor yn cynghori fel rhan o dîm y prosiect.

Dros y pum mlynedd nesaf, mae adnoddau wedi cael eu dyrannu er mwyn sicrhau y bydd pob ysgol yn y fwrdeistref yn cyrraedd y Safon Ddigidol ar gyfer Addysg a chaiff y seilwaith gofynnol ei gynnwys ymlaen llaw ym manylebau unrhyw ddatblygiadau newydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, a fydd yn cynnwys wifi cymunedol.

Yn ogystal â darparu'r seilwaith ffisegol, mae tîm Addysg Oedolion y Cyngor wedi datblygu cynlluniau gweithredol cadarn i gyflwyno Fframwaith Strategol Digidol 2030 ac ehangu mynediad i weithgareddau dysgu ar amser ac mewn lleoliad sy'n ystyried anghenion y gymuned, a roddir ar waith yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum egwyddor ar gyfer gweithio.

Cyfleusterau Chwaraeon a Chwarae yn yr Awyr Agored

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi chwe maes dysgu ac yn rhoi pwyslais cryf ar lechyd a Llesiant uwchlaw popeth arall.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylid hybu datblygiad corfforol, egni a brwdfrydedd plant dros symud yn gyson drwy eu helpu i ddefnyddio eu cyrff yn effeithiol, annog ymwybyddiaeth ofodol, cydbwysedd, rheolaeth a chydysymud, a datblygu sgiliau echddygol a thrafod ym mhob Maes Dysgu, dan do ac yn yr awyr agored.

Dylid annog plant i fwynhau gweithgarwch corfforol. Mae darparu addysg gorfforol drwy gyfleusterau chwaraeon ac awyr agored yn chwarae rôl hanfodol wrth annog disgyblion i archwilio a datblygu'r sgiliau corfforol a meddyliol sy'n hanfodol er mwyn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol.

Fel y nodir yn Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol Caerffili 2019-2029 ac yn y blaenoriaethau iechyd a llesiant a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023, gweledigaeth y Cyngor ar gyfer chwaraeon a hamdden egniol yw annog ffyrdd iach o fyw a chefnogi ein disgyblion a'n trigolion i wneud mwy o ymarfer corff yn amlach.

Fel rhan o'r broses ddylunio, bydd y cynnig hwn yn darparu cyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau awyr agored pwrpasol. Er nad yw'r cynlluniau wedi'u cwblhau eto, mae'r trafodaethau yn cynnwys neuadd chwaraeon â wal ddringo a ring focsio yn ogystal ag ardal gemau amldeffnydd awyr agored ag arwyneb 3G.

Budd i'r Gymuned

Mae'r prosiectau yn sicrhau bod Budd i'r Gymuned yn Ofyniad Craidd, a chaiff ei sgorio fel rhan o'r gwerthusiad Ansawdd. Mae'n nodi sawl targed yn seiliedig ar ddulliau recriwtio a hyfforddi lleol wedi'u targedu, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysgol a materion amgylcheddol megis lleihau gwastraff a'r defnydd o ynni. Mae diogelu cynefinoedd, bioamrywiaeth a lleihau llygredd yn fater o drefn drwy gydol cyfnod y contract a chaiff arolygon perthnasol eu cynnal a'u cynnwys yn y dogfennau caffael.

BETH YW MANTEISION Y CYNNIG?

Manteision

Mae prif fanteision y cynnig yn cynnwys:

- Mae'n darparu cyfleuster 'mewnol' sydd ag o leiaf 80 o leoedd er mwyn diwallu anghenion disgyblion wedi dadrithio
- Y defnydd gorau o le drwy ailgynllunio'r safle
- Amgylchedd ysgogol i gyflawni deilliannau dysgwyr sy'n benodol i anghenion pob disgybl unigol ac sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r 'pedwar diben' sy'n sail i'r Cwricwlwm newydd i Gymru
- Cyfleuster gweithgareddau awyr agored newydd i wella'r cynnig cwricwlaidd i ddisgyblion
- Canolfan Ragoriaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol
- Cyfleuster sy'n chwarae rhan ganolog wrthi roi Strategaeth EOTAS Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar waith
- Dull arloesol yn seiliedig ar fodel prif ganolfan a lloerennau ar gyfer darparu'r rhaglen 'Cwmpawd'
- Aildefnyddio hen safle ysgol ac adeilad ysgol ramadeg
- Defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol, ar ôl diwallu anghenion cwricwlaidd y disgyblion yn ystod sesiynau'r ysgol

Anfanteision

Mae prif anfanteision y cynllun yn cynnwys:

- Mae'r lleoliad arfaethedig o fewn radiws o lai na 3 milltir o'r unig Uned Cyfeirio Disgyblion arall yn yr Awdurdod, ond dylid nodi ei fod wedi cael ei ddewis yn fwriadol gan ei fod yn lleoliad canolog a drwy ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol, bydd yr Uned yng Nglanynant yn darparu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2 a'r Uned ym Mhontllan-fraith yn darparu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4.

Risgiau

Caiff y risgiau eu rheoli'n rhagweithiol yn unol â'n gweithdrefnau rheoli risgiau. Mae'r rhaglen yn cynnwys trefniadau wrth gefn ar gyfer rheoli risgiau i gwmpasu digwyddiadau nas rhagwelwyd, gan ystyried yr asesiadau o duedd optimistaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â chaffael gwaith adeiladu, yn enwedig o ystyried goblygiadau presennol COVID-19 i'r diwydiant.

Mae'r prif risgiau o roi'r cynllun ar waith yn cynnwys:

Tabl 4: Risgiau a Chamau Lliniaru

Risg	Ffactor Lliniarol
Y broses gynllunio (mae hyn ar wahân i'r ddogfen ymgynghori)	Caiff y broses gynllunio ei rheoli gan y Gwasanaethau Eiddo yn unol â gofynion deddfwriaethol
Effaith unrhyw amodau cynllunio ar gostau	Caiff proses dendro lawn ei chynnal
Sicrhau bod digon o gyllid i gwblhau'r gwaith gan gynnwys costau annormal	Bydd cynlluniau wrth gefn yn rhan o'r broses dendro
Sicrhau bod digon o adnoddau/ contractwyr	Caiff Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De Ddwyrain a Chanolbarth Cymru (SEWSCAP) ei ddefnyddio
Cyflwyno risgiau i gostau yn sgil dynamig cyflenwadau/ galw rhanbarthol	Cânt eu rheoli drwy gynlluniau wrth gefn
Datblygu dyluniadau	Caiff gwasanaeth pensaernïaeth mewnol ei ddefnyddio
Tywydd garw	Caiff ei ystyried fel rhan o amserlenni rheoli'r prosiect
Sicrhau bod digon o wasanaethau cyfleustodau	Caiff ei ystyried fel rhan o amserlenni rheoli'r prosiect
Llywodraethu Prosiectau a gwneud penderfyniadau	Caiff Bwrdd Llawn ar gyfer y Prosiect ei sefydlu
Cyflawni buddiannau (diwallu anghenion y defnyddwyr terfynol)	Gan nad yw'r broses ymgynghori a ragnodir gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn gymwys i Unedau Cyfeirio Disgyblion yn yr achos hwn, caiff Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025 y Cyngor a'r "Sbectwm Ymgysylltu" eu defnyddio i sicrhau y

defnyddir y lefel briodol o weithgareddau ymgysylltu wrth hysbysu rhanddeiliaid ac ymgynghori â nhw ac adlewyrchir y prosesau a amlinellir yn Adran 3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fframwaith Opsiynau

Dilynwyd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Achosion Busnes mewn perthynas â defnyddio'r dull Fframwaith Opsiynau er mwyn nodi'r nifer mwyaf posibl o opsiynau dichonadwy, gan ganolbwyntio ar y dimensiynau allweddol canlynol: cwmpas, datrysiad gwasanaeth, cyflenwi gwasanaeth, a threfniadau gweithredu ac ariannu.

Fel y cyfryw, wrth ddatblygu'r cynnig hwn, cynhaliwyd arfarniad o'r opsiynau er mwyn ystyried dymunoldeb, hyfywedd a dichonoldeb cymharol cynnig.

Sefydlwyd gweithgor trawsadrannol yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, y Gyfarwyddiaeth Addysg, Chwaraeon a Hamdden, Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaethau Eiddo, Cyllid ac Iechyd a Diogelwch er mwyn:

- Paratoi ac arfarnu rhestr hir o opsiynau.
- Gwerthuso a sgorio pob opsiwn o ran i ba raddau y mae'n bodloni'r amcanion buddsoddi a'r ffactorau llwyddiant critigol a nodwyd ac a bwysleisiwyd fel meysydd blaenoriaeth gan y Cyngor.
- Diystyru opsiynau neu eu rhoi ar y rhestr fer i'w hystyried ymhellach yn seiliedig ar y dadansoddiad a'r sgôr rhagarweiniol er mwyn nodi opsiynau hyfyw.
- Argymhell ffordd ymlaen a ffefrir a fydd yn sail i'r ymarfer ymgynghori.

Rhestr Hir o Opsiynau

Cafodd yr opsiynau canlynol eu hystyried a'u sgorio: -

Tabl 5: Arfarnu'r Rhestr Hir o Opsiynau

Opsiwn	Opsiynau o'r Rhestr Hir: Disgrifiad
Opsiwn 1 *	Gwneud Dim: Dim darpariaeth EOTAS ychwanegol.
Opsiwn 2	Gwneud y Lleiafswm: Dechrau defnyddio'r ysgol ramadeg bresennol (safle hen Ysgol Gyfun Pontllan-fraith) unwaith eto drwy osod system wresogi newydd a gwneud gwaith addurno mewnol
Opsiwn 3	Gwaith Canolraddol: Ailfodelu'r Ysgol Ramadeg a'r maes parcio yn llawn
Opsiwn 4	Gwaith Mawr: Ailfodelu'r Ysgol Ramadeg yn llawn, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon ar y lefel is, maes parcio a chyfleusterau cymunedol
Opsiwn 5	Gwneud yr Uchafswm: Adeilad newydd sbon ar safle Pontllan-fraith, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau cymunedol

*Noder, ystyrir mai Opsiwn 1 yw'r opsiwn status quo a chaiff ei gynnwys yn y rhestr fer bob tro fel meincnod ar gyfer gwerth am arian.

Trafodwyd pob opsiwn â detholiad o Swyddogion y Cyngor o amrywiaeth o adrannau yn y lle cyntaf. Cafodd pob opsiwn ei werthuso yn erbyn yr amcanion buddsoddi ac i ba raddau roedd yn bodloni'r Ffactorau Llwyddiant Critigol. Yn dilyn hyn, caiff opsiynau naill ai eu diystyru, eu rhoi ar y rhestr fer i'w hystyried ymhellach neu eu nodi fel y ffordd ymlaen a ffefrir.

Ffactorau Llwyddiant Critigol:

- Adeiladu ysgol sy'n cydymffurfio â'r bwletin
- Amgylchedd carbon isel, ynni isel ac sy'n ecogyfeillgar
- Adeilad sy'n addas i'r amgylchedd lleol ac sy'n gymwys i'r awdurdod cynllunio
- Cyfleuster addysg sy'n addas i randdeiliaid
- Cwblhau'r prosiect o fewn y gyllideb a'r terfynau amser gofynnol
- Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y cynnig

Yn ogystal â'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol, bu'r Swyddogion hefyd yn ystyried yr Addasrwydd Strategol, Addysgol, Ariannol, Amgylcheddol ac o ran Mynediad fel y prif Amcanion Buddsoddi.

Amcanion Buddsoddi:

Cafodd yr Amcanion Buddsoddi eu pwysoli yn seiliedig ar y meysydd presennol o flaenoriaeth i'r Cyngor. Rhoddwyd sgôr o 5 (Uchel) i 1 (Isel) i'r meysydd Buddsoddi â Blaenoriaeth.

Yn dilyn hynny, roedd pob opsiwn yn derbyn sgôr yn erbyn y meini prawf a nodir uchod

5 rhagori ar y meini prawf

4 bodloni'r meini prawf

3 nid yw'n bodloni/neu ddim yn bodloni'r meini prawf

2 yn bodloni'r meini prawf yn rhannol

1 ddim yn bodloni'r meini prawf

Yn dilyn hynny, cafodd y sgôr ei rannu yn ôl pwysoliad pob adran a chafodd cyfanswm cyffredinol ei lunio ar gyfer pob opsiwn.

Tabl 6: Matrics Penderfynu wedi'i Bwysoli

Amcanion Buddsoddi		Opsiyau										
		1		2		3		4		5		
	Pwys-oliad	Sgôr	Cyfan-swmm	Sgôr	Cyfan-swmm	Sgôr	Cyfan-swmm	Sgôr	Cyfan-swmm	Sgôr	Cyfan-swmm	
1	Ffit Strategol	5	0	0	1	5	3	15	5	25	5	25
2	Addysgol	5	0	0	1	5	2	10	5	25	5	25
3	Hygyrchedd	4	0	0	2	8	4	16	4	16	5	20
4	Ariannol	4	0	0	2	8	4	16	5	20	4	16
5	Amgylcheddol	4	0	0	3	12	3	12	5	20	4	16
			0		38		69		106		102	

Allwedd y Matrics Penderfynu:

Pwysoliad: Mae 5 yn amcan buddsoddi blaenoriaeth uchel – mae 0 yn isel

(Mae'r pwysoliad yn adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol y Cyngor)

Sgôr: 5 - yn bodloni meini prawf yr amcan buddsoddi yn llawn

0 - ddim yn diwallu'r anghenion

Cyfanswm: Sgôr x Pwysoliad

Tabl 7: Arfarnu Opsiynau - Sgorio a graddio'r rhestr hir

Opsiw n	Disgrifiad	Sgôr Arfarnu	Gradd Arfarnu
Opsiw n 1	Gwneud Dim: Dim darpariaeth EOTAS ychwanegol.	0	5
Opsiw n 2	Gwneud y Lleiafswm: Dechrau defnyddio'r ysgol ramadeg bresennol (safle hen Ysgol Gyfun Pontllan-fraith) unwaith eto drwy osod system wresogi newydd a gwneud gwaith addurno mewnol	38	4
Opsiw n 3	Gwaith Canolraddol: Ailfodelu'r Ysgol Ramadeg a'r maes parcio yn llawn	69	3
Opsiw n 4	Gwaith Mawr: Ailfodelu'r Ysgol Ramadeg yn llawn, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon ar y lefel is, maes parcio a chyfleusterau cymunedol	106	1
Opsiw n 5	Gwneud yr Uchafswm: Adeilad newydd sbon ar safle Pontllan-fraith, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau cymunedol	102	2

Rhestr Fer o Opsiynau

Ar ôl gwerthuso'r opsiynau, cafodd y ddau opsiwn gyda'r sgoriau uchaf eu trosglwyddo i restr fer lle y cafodd manteision yr opsiynau eu hystyried.

Ar gyfer y cynnig hwn, amlinellir Opsiynau 4 a 5 yn fanylach isod:

Tabl 8: Arfarnu'r Opsiynau ar y Rhestr Fer

Opsiw n	Disgrifiad
Opsiw n 4	Gwaith Mawr: Ailfodelu'r Ysgol Ramadeg yn llawn, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon ar y lefel is, maes parcio a chyfleusterau cymunedol
Opsiw n 5	Gwneud yr Uchafswm: Adeilad newydd sbon ar safle Pontllan-fraith, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau cymunedol

Mae'r tablau isod yn dangos hyn ar sail gwerthusiad cymharol:

Tabl 9: Trosolwg o Opsiwn 4 – Materion Critigol, Manteision ac Anfanteision

Trosolwg o'r Opsiwn:

Ailfodelu'r Ysgol Ramadeg yn llawn, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon ar y lefel is, maes parcio a chyfleusterau cymunedol

Materion critigol:

- Ailfodelu adeilad presennol yr Ysgol Ramadeg ar hen safle Ysgol Gyfun Pontllanfraith yn llawn er mwyn darparu cyfleusterau addysgol modern, o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif
- Byddai'n bodloni argymhellion BB 104
- Byddai'r cyfleuster newydd yn gallu darparu ar gyfer nifer ychwanegol o ddisgyblion agored i niwed
- Byddai hyn yn ddefnydd gwell o adnoddau ac yn cynnig arbedion maint drwy wella ystad bresennol hen ysgol a'i chost effeithiolrwydd gweithredol
- Byddai'n lleihau'r angen i gaffael darparwyr allanol ar gyfer carfan o ddisgyblion y nodwyd eu bod yn ddysgwyr agored i niwed
- Byddai'n gwneud y mwyaf o'r buddsoddiad sylweddol a wnaed eisoes i wella a datblygu darpariaeth EOTAS ledled y fwrdeistref sirol
- Bydd yn sicrhau darpariaeth barhaus ar un safle ac yn gweithredu fel canolfan ragoriaeth i gwmpasu'r ddarpariaeth EOTAS gyfan a chefnogi'r gwaith o wella sgiliau'r gweithlu
- Mae'n darparu cyfleusterau i gefnogi iechyd a llesiant corfforol a meddyliol
- Mae'n cynnig y posibilrwydd o gynyddu a gwella defnydd cymunedol a chyfleoedd i greu incwm

MANTEISION	ANFANTEISION
<ul style="list-style-type: none"> • Adeilad ffisegol ychwanegol i gefnogi'r strategaeth EOTAS • Bydd yn darparu amgylchedd addysgu digonol a chyfartal i fodloni gofynion y Bwletin Adeiladu • Bydd yn ailddatblygu safle tir llwyd ac yn aildefnyddio hen gyfleuster addysgol • Bydd yn cydymffurfio â phob polisi Cenedlaethol a Lleol, gan gynnwys y Cwricwlwm newydd i Gymru • Bydd gwell hygyrchedd • Bydd yn gwella'r ardal ddysgu awyr agored ac yn darparu mynediad i gyfleusterau chwaraeon a fydd yn cefnogi iechyd a llesiant y garfan o ddisgyblion • Disgwylir y bydd yn gwella deilliannau dysgu disgyblion agored i niwed • Bydd darpariaeth barhaus mewn un lleoliad yn diwallu anghenion disgyblion y mae angen EOTAS arnynt • Bydd yn cynyddu'r capasiti o fewn y lwfans strategol • Bydd yn darparu ar gyfer anghenion 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr adeiladau a gaiff eu hailfodelu ar safle ar wahân i'r Uned Cyfeirio Disgyblion bresennol yng Nglanynant • Ni fydd y cyfleuster yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion BREEAM nac yn garbon niwtral gan mai ailfodelu adeilad sydd eisoes yn bodoli yw'r bwriad

<p>addysgol a dewisiadau'r gymuned leol ac yn darparu adeiladau ac ystafelloedd digonol, parhaol a chynaliadwy sy'n addas at y diben</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor eisoes yn berchen ar y tir a bydd hyn yn lleihau unrhyw oedi • Mae'r lleoliad yn ganolog yn ddaearyddol o ran ffin yr awdurdod lleol • Gellir cyflawni'r prosiect o fewn yr ystod buddsoddi a nodwyd 	
--	--

Tabl 10: Trosolwg o Opsiwn 5 – Materion Critigol, Manteision ac Anfanteision

Trosolwg o'r Opsiwn:
 Adeilad newydd sbon ar safle Pontllan-fraith, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau cymunedol

Materion Critigol

- Cyfleuster EOTAS newydd sy'n cynnig cyfleusterau addysgol modern o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif
- Bydd yn bodloni argymhellion BB 104
- Bydd mynediad gwell i gyfleusterau dysgu awyr agored
- Byddai'r cyfleuster newydd yn gallu darparu ar gyfer nifer ychwanegol o ddisgyblion agored i niwed
- Byddai hyn yn ddefnydd gwell o adnoddau ac yn cynnig arbedion maint drwy wella ystad bresennol hen ysgol a'i chost effeithiolrwydd gweithredol
- Byddai'n lleihau'r angen i gaffael darparwyr allanol ar gyfer carfan o ddisgyblion y nodwyd eu bod yn ddysgwyr agored i niwed
- Adeilad ysgol newydd a fydd yn fwy ynni effeithlon
- Cyfleuster cwbl hygyrch a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010
- Adeilad newydd â chyfleusterau i ddiwallu anghenion y gymuned

MANTEISION	ANFANTEISION
<ul style="list-style-type: none"> • Adeilad newydd sbon sy'n addas at y diben • Bydd yn darparu amgylchedd addysgu digonol a chyfartal i fodloni gofynion Bwletin Adeiladu 104 • Bydd yn cydymffurfio â phob polisi Cenedlaethol a Lleol, gan gynnwys y Cwricwlwm newydd i Gymru • Bydd gwell hygyrchedd • Bydd yn gwella'r ardal ddysgu awyr agored • Bydd yn sicrhau darpariaeth barhaus mewn un lleoliad a fydd yn diwallu anghenion disgyblion y mae angen EOTAS arnynt • Bydd yn darparu ar gyfer anghenion addysgol a dewisiadau'r gymuned leol ac 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai'r capasiti cynyddol y tu hwnt i'r lwfans strategol a'r ystod ariannol • Byddai angen ad-drefnu'r proffil gwario yn sylweddol er mwyn cyflawni'r datblygiad hwn, a hynny ar draul darpariaeth brif ffrwd • Bydd costau dymchwel yn berthnasol ar y safle dan sylw • Byddai adeilad newydd yn cymryd mwy o amser ac, o ystyried y galw a ragwelir am leoedd ar gyfer disgyblion EOTAS, ni fyddai'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei Amcanion Strategol.

yn darparu adeiladau ac ystafelloedd digonol, parhaol a chynaliadwy sy'n addas at y diben	
---	--

Opsiwn a Ffefrir ac Opsiynau Amgen sydd wedi cael eu Diystyru

Yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod, y ffordd ymlaen a ffefrir yw'r Opsiwn Gwaith Mawr gan fod hwn yn bodloni'r holl amcanion buddsoddi a'r Ffactorau Llwyddiant Critigol yn gryf yn y rhan fwyaf o achosion.

Drwy gyfuno'r arfarniadau, gellir dod i'r casgliad mai cynllun ailfodelu fydd yn darparu'r cydbwysedd gorau o ran costau, manteision a risgiau a bod yr opsiynau o ran codi adeilad newydd ac ailadeiladu cyfyngedig yn cynnig gwerth gwael am arian ac yn cyflwyno risg uchel. Opsiwn 4 yw'r opsiwn a ffefrir yn dilyn yr arfarniad economaidd llawn.

Tabl 11: Opsiwn a Ffefrir a Argymhellir

Opsiwn	Disgrifiad
Opsiwn 4	Gwaith Mawr: Ailfodelu'r Ysgol Ramadeg yn llawn, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon ar y lefel is, maes parcio a chyfleusterau cymunedol

Nid yw'r opsiynau sy'n weddill yn bodloni'r amcanion gwariant yn llawn ac felly cânt eu diystyru.

Y CAMAU NESAF

Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol

Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddydd Mercher 20 Hydref 2021

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb hon ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor. Am ragor o wybodaeth ewch i ein tudalennau gwe [Ysgolion yr 21ain Ganrif](#)

Mae Fersiwn Gryno Syml o'r ymgynghoriad hwn ar gael i Blant a Phobl Ifanc. Mae'r fersiwn hon a'r fersiwn lawn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gellir hefyd gofyn am gopiâu wedi'u hargraffu.

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft print bras, neu os hoffech gael help i'w dehongli mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 01445 864817 neu YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk fel y gallwn wneud y trefniadau gofynnol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn unol â'r bwriad i adlewyrchu'r prosesau ar gyfer cynigion ysgolion a gynhelir, caiff cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod ei gynnal er mwyn caniatáu digon o amser i gasglu adborth.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ddydd Mercher 1 Rhagfyr 2021

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Cabinet Caerffili yn derbyn Adroddiad ymgysylltu â'r gymuned a fydd yn amlinellu'r cynnig a'r holl sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ar y cam hwn, gall yr aelodau benderfynu p'un a ydynt am barhau gyda'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu roi'r gorau i'r cynnig.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau gyda'r cynnig, nid yw'n ofynnol cyhoeddi Hysbysiad Statudol gan nad yw'r cynnig hwn yn ddarostyngedig i ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Os caiff ei gymeradwyo, byddai'r cynnig yn symud ymlaen i'r cam cyflwyno Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru a'r broses cais cynllunio llawn.

Dweud eich dweud

Mae eich barn yn bwysig ac hoffem glywed eich barn am y newidiadau rydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen a chlywed p'un a ydych o blaid y cynnig ai peidio. Caiff pob barn ei chroesawu o blaid neu yn erbyn y cynnig. Dyma'ch cyfle chi i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i weithredu.

Ar gyfer y cynnig hwn, byddwn yn cynnal ymarfer ymgynghori ar bapur. Yn sgil goblygiadau COVID-19 ar hyn o bryd, ni fyddwn yn cynnal unrhyw sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb er mwyn cadw pellter cymdeithasol ac yn cynnal arferion gweithio diogel i bawb.

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y cynnig, gallwch wneud hyn drwy wneud y canlynol:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau'r ffurflen ymateb sydd wedi'i hatodi i'r ddogfen hon a'i dychwelyd i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghaerffili
- Anfonwch eich e-bost i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif

Mae eich sylwadau'n bwysig

Llenwch yr holiadur a'i ddychwelyd drwy'r post neu dros e-bost i:

Ymateb i Ymgynghoriad 'PRU'

d/o Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif
Y Gyfadrannau Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

Ysgolion21ainGanrif@caerffili.gov.uk



Noder mai dim ond sylwadau ysgrifenedig y gallwn eu derbyn, naill ai drwy'r ffurflen ar-lein, y ffurflen ymateb neu dros e-bost. Rhaid i chi gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post fel rhan o'r wybodaeth a ddarperir.

GWYBODAETH ATEGOL

Cwestiynau Cyffredin

Mae gan y Cyngor a Thîm Ysgolion yr 21ain Ganrif hanes o redeg prosiectau arloesol a thrawsfurfiol fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A a thu hwnt.

Bydd Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn coladu rhestr o ymholiadau posibl yn seiliedig ar brofiad o arwain cynigion blaenorol ar ffurf dogfen 'Cwestiynau Cyffredin' a gaiff ei chyhoeddi ar y wefan ynghyd â'r ddogfennaeth ymgynghori hon.